

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 25AIN O FEHEFIN 2018 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Stanley Williams, Arwel Davies, Bari Evans, Iwan Jones, Jill Evans, Falmai Evans a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Hywel Davies, Geraint Jones a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. AELOD NEWYDD O'R CYNGOR.

Croesawodd y Cadeirydd i'r aelod newydd y Cyngor, Arwel Davies, i'r cyfarfod a dderbyniwyd y Clerc ffurflen "Datganiad Derbyn Swydd" oddi wrth y Cyngorydd Davies.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 21ain o fai 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r materion y ffyrdd a godwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

B. Diolchwyd i'r Cyngorydd Elfed Williams am y sylwadau i'r cais cynllunio i ddatblygu 1.2 hectar o dir drwy godi 33 ac anheddau (cais amlinellol yn cynnwys mynediad a chynllun) ar dir wrth Dolwar, Llanrhaeadr.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £13,320.00.

B. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2018 - £420.00.

2. HMRC – PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2018 - £105.00.

C. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Ysgol Pant Pastynog, Prion am gefnogaeth ariannol y Cyngor.

7. PENDERFYNIADAU CEISIADAU CYNLLUNIO.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio i godi estyniad unllaw'r ystafell ddsbarth yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cadw llinell drydan uwchben yn Crwcwd Farm, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

B. Codi estyniad i annedd yn Hafodty Ddu, Saron - dim gwrthwynebiad.

C. Amrywio amod rhif 7 (adfer Cae'r Mynydd Gogledd) o rif cod caniatâd cynllunio 23/2016/1218 i ganiatáu 12 mis ychwanegol i gydymffurfio a'r amod yng Nghaer Mynydd Caraven Park, Saron. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais gan fod yr ymgeisydd wedi cael digon o amser i amrywio'r amod rhif 7 a rhoddwyd yn y cais cynllunio wreiddiol.

#### 9. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd adroddiad “Casgliadau - Aseiad ac Archwiliad o Fannau Agored Sir Ddinbych” oddi wrth Reolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych.
- B. Derbyniwyd gwybodaeth fod y ffordd heibio Pen-y-Cae, Prion mewn cyflwr difrifol a phenderfynwyd y Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y mater.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Dim.

#### 11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100b(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Mae'r toriad cyntaf o'r ochrau ffyrdd y gymuned ddim wedi cael eu gwneud hyd at hyn sydd yn broblem iechyd a diogelwch.
2. Gwaith gwarthus ar drwsio'r ffordd rhwng Prion a Saron.
3. Cerrig ar wyneb y ffordd wrth y fynwent.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gwmni Jones Bros o Rhuthun yn adroddi fod cerbydau'r Cwmni yn gôr cyflym ar ffyrdd y gymuned tuag at waith “Fferm Wynt” yng Nghoedwigaeth Clocaenog.

C. Rhoddwyd caniatâd i'r Cynghorydd Elfed Williams bwrw ymlaen gyda'r archebid o'r poteli a brwsh dannedd di blastig dros y Cyngor i'r disgyblion Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog.

#### 12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 30ain o Orffennaf 2018 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.